CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai

A ydych chi'n bryderus am les plentyn?

Uned Plant a Theuluoedd

Children and Families Unit

A ydych chi'n bryderus am les plentyn?

Yn anffodus, mae rhai plant yn cael eu cam-drin. Mae hyn yn rhywbeth nad oes neb eisiau ei weld yn digwydd. Gall camdriniaeth gymryd sawl ffurf. Gallai rhywun gam-drin/cham-drin neu esgeuluso plentyn drwy ei niweidio, neu drwy fethu â'i (h)amddiffyn rhag niwed. Gallai aelod o deulu plentyn ei gam-drin/cham-drin, neu gallai gael ei gam-drin/cham-drin mewn sefydliad neu yn y gymuned, gan bobl sy'n ei (h)adnabod, neu'n fwy prin, gan ddieithryn.

- Cam-drin corfforol - gallai hyn gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi neu fygu, neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn.

- Cam-drin emosiynol - gallai hyn gynnwys codi cywilydd ar blentyn, dweud wrth blentyn ei fod/bod yn (d)diwerth neu nad oes neb yn ei garu/charu, gofyn i blentyn wneud rhywbeth sy'n afresymol o ran ei (h)oedran, neu godi ofn ar blant.

- Cam-drin rhywiol - gallai hyn olygu rhoi pwysau ar neu annog plentyn neu rywun ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol anaddas. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol neu blant yn edrych ar ddeunyddiau pornograffig.

- Esgeuluso - yw methu'n barhaus i gwrdd efo anghenion corfforol neu seicolegol plentyn neu'r ddau. Mae hyn yn cynnwys methu â darparu digon o fwyd, cynhesrwydd, addysg, sylw meddygol, diogelwch ac anogaeth.

Beth ddylwn i ei wneud?

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddiogelwch plentyn, ac rydych eisiau siarad efo rhywun, neu ofyn i rywun ganfod beth sy'n digwydd, dylech gysylltu efo ni.

Os ydych chi'n credu efallai bod plentyn mewn perygl, dylech gysylltu efo ni cyn gynted ag y bo modd – peidiwch ag oedi.

Yn ystod oriau swyddfa (8.45am dan 5.15pm), dylech gysylltu efo ni ar **01492 514871** a gofyn am gael siarad efo'r **gweithiwr/aig cymdeithasol ar ddyletswydd.**

Pob amser arall - drwy'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r banc - dylech gysylltu efo'r **gweithiwr/aig cymdeithasol ar ddyletswydd tu allan i oriau gwaith** ar **01492 515777**.

Pe bai'n well gennych, yn hytrach na'n ffonio ni, gallwch ffonio'r heddlu a'r NSPCC.

Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn cysylltu efo chi pan rwy'n bryderus am blentyn?

Os yw rhywun - cymydog, perthynas, ffrind, doctor, neu athro/awes er enghraifft - yn meddwl bod plentyn yn cael ei gam-drin, gallant ofyn i ni ganfod beth sy'n digwydd go iawn. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni ymchwilio i bob achos y rhoddir gwybod i ni amdanynt (dan adran 47 Deddf Plant 1989).

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gweithiwr/aig cymdeithasol ar ddyletswydd yn cymryd rhai manylion oddi wrthych am eich pryderon.

Yna byddant yn eich rhoi mewn cysylltiad efo gweithiwr/aig cymdeithasol a fydd yn trafod eich pryderon mewn mwy o fanylder.

Yna bydd y gweithiwr/aig cymdeithasol yn bwrw 'mlaen ag ymchwiliad gan ddilyn ein trefnau amddiffyn plant. Cytunir ar y trefnau hyn gan ein Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal sy'n cynrychioli'r holl asiantaethau sy'n gysylltiedig efo plant.

Oes raid i mi roi fy enw?

Na, does dim rhaid i chi roi eich enw. Mae rhai pobl sy'n cysylltu efo ni efo pryderon am les plentyn yn poeni am i'w henw gael ei ddatgelu i'r plentyn a'i deulu/theulu. Does dim rhaid i chi roi eich enw ond mae'n lawer o help i ni pe baech yn gwneud hynny. Os hoffech, gallwn sicrhau na wnawn roi eich enw i'r plentyn a'i deulu.

Os hoffech wybod mwy am yr wybodaeth yn y daflen hon, cysylltwch efo'r:

Uned Plant a Theuluoedd
Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol
a Gwasanaethau Tai
Anecs y Ganolfan Ddinesig
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8AR
Ffôn: 01492 514871

Gallwch gael y daflen yma ar dâp sain, mewn Braille ac mewn print bras. Os ydych angen un o'r rhain, yna ffoniwch 01492 574 065.

Os ydych chi eisiau unrhyw wybodaeth mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, fe wnawn ein gorau i geisio cael cyfieithiad i chi.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y daflen yma o:

Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol
a Gwasanaethau Tai
Builder Street,
Llandudno, LL30 1DA.
Ffôn: 01492 574 065

Crystal Mark
Clarity approved by Plain English Campaign

Reference No: SCtH-CGtF-L-CONCERNED-04-05 (v1) design by www.blahdblah.com